


**Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anableddau Dysgu**

**Cofnodion yr ail gyfarfod**

**4 Mehefin 2019**

| **Yn bresennol - Aelodau** | **Ymddiheuriadau** |
| --- | --- |
| Sophie Hinksman - Cydgadeirydd | |
| Adrian Burke - Cartrefi Cymunedol Cymru | Raghu Baburaj |
| Wayne Crocker - Mencap Cymru | Rebecca Cicero |
| Lynne Evans - Pobl yn Gyntaf Cymru | Suzanne Clifton |
| Christine Griffiths - Pwyllgor Cynghorol Therapïau Cymru | Emma Mulinder |
| Julian Hallett - Cymdeithas Syndrom Down | Jason O'Brien |
| Edwin Jones - Cymuned Ymarfer Ymddygiad Heriol | |
| Dermot McChrystal - Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg | |
| Michelle Martin - Fforwm Gofal Cymru | |
| Ruth Northway - Prifysgol De Morgannwg | |
| Joe Powell - Pobl yn Gyntaf Cymru | |
| Zoe Richards - Anabledd Dysgu Cymru | |
| Jane Rodgers – Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan | |
| Hayley Tarrant - Pwyllgor Nyrsio a Bydwreigiaeth Cymru | |
| Oliver Townsend - Cymorth Cymru | |
| Michelle Williams - Pobl yn Gyntaf Cymru | |
| Sharon Williams - Iechyd Cyhoeddus Cymru | |
| Pauline Young - Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan | |
| **Eraill** | |
| Tracey Drew - cefnogi Sophie | |
| Celia Lewis - cefnogi Michelle | |
| Dawn Price - cefnogi Lynne | |

| | |
|---|---|
| Louise Barry  - mynychu ar ran Suzanne Clifton<br>Emma Curtis – swyddfa’r Comisiynydd Plant<br>Julie Heal – mynychu gyda Jane Rodgers<br>Emma McDonald – mynychu ar ran Emma Mulinder<br>Yr Athro Meena Upadhyahya – Prifysgol Caerdydd<br>Edward Oloidi – mynychu gyda Ruth Northway<br>Wendy Parry – mynychu gyda Jane Rodgers<br><br>**Swyddogion**<br><br>Hazel Powell : Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Swyddfa’r Prif Swyddog Nyrsio<br>Karen Eveleigh : Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau<br>Natalie Hughes-Owens : Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau<br>Alyson Collins : Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio<br><br>**Swyddogion yn bresennol ar gyfer eitemau ar yr agenda**<br><br>Dan Jones – Y Gyfarwyddiaeth Dai – yn bresennol ar gyfer eitem 4 ar yr agenda.<br><br>Jon Williams – Y Gyfarwyddiaeth Iechyd – yn bresennol ar gyfer eitem 5 ar yr agenda. | |

| **1.** | **Croeso, ymddiheuriadau a chyflwyniadau** | |
|---|---|---|
| | 1.1 Dywedodd Karen, gan na chafwyd hyd i gydgadeirydd arall eto, y byddai’n cadeirio’r cyfarfod ar y cyd â Sophie. Ychwanegodd y gofynnwyd i’r Athro Meena Upadhyaya, Prifysgol Caerdydd, dderbyn swydd y cydgadeirydd a’i bod yn bresennol yn y cyfarfod fel sylwedydd.<br><br>1.2 Croesawodd Sophie bawb i’r cyfarfod. Gan fod nifer o bobl newydd yn y cyfarfod, gwahoddodd Sophie bawb i gyflwyno eu hunain a dweud pwy yr oedden nhw yn ei gynrychioli. Nodwyd yr ymddiheuriadau.<br><br>1.3 Dywedodd Karen wrth yr aelodau fod Claire | |

| | | |
|---|---|---|
| | Hough, a oedd wedi gweithio gyda Kath Palmer ar yr adolygiad o wasanaethau anabledd dysgu a arweiniodd at y Rhaglen Gwella Bywydau, wedi symud i swydd newydd. Gofynnodd yr aelodau am gael cofnodi eu diolch i Claire am ei holl waith caled, yn y cofnodion. Ychwanegodd Karen fod Natalie Hughes-Owen wedi ymuno â'r Tîm Gwella Bywydau ac y byddai swydd Claire yn cael ei llenwi.<br><br>1.4 Darllenodd Sophie y rheolau sylfaenol ar gyfer cyfarfodydd GCGAD ac atgoffodd yr aelodau o'r angen i wrando ar eraill a pharchu eu barn.<br><br>1.5 Soniodd Sophie am y rheolau sylfaenol a luniwyd gan Grŵp y Rhaglen Anabledd Dysgu a gofynnodd a fyddai'r grŵp am ystyried mabwysiadu rhai o'r rhain, neu bob un ohonynt.<br><br>**Cam gweithredu**<br><br>Dosbarthu rheolau sylfaenol Grŵp y Rhaglen Anabledd Dysgu a cheisio barn yr aelodau. | **Ysgrifenyddiaeth** |
| **2.** | **Cofnodion y cyfarfod blaenorol, camau gweithredu sy'n weddill, swydd y cydgadeirydd** | |
| | 2.1 Unrhyw fater arall – dywedodd nifer o aelodau fod angen i 'Unrhyw fater arall' fod yn eitem sefydlog ar yr agenda er mwyn galluogi'r aelodau i drafod materion cyfredol o bwys, megis y rhaglen 'Panorama: Undercover Hospital Abuse Scandal'. Fodd bynnag, cydnabuwyd y dylai materion mwy cyffredin, megis rhoi gwybod am ddigwyddiadau, gael eu cynnwys mewn llythyr newyddion neu neges e-bost i bawb.<br><br>2.2 Cofnodion hawdd eu darllen – diolchodd Sophie i'r ysgrifenyddiaeth am ddarparu fersiwn hawdd ei darllen o'r cofnodion ac am gadarnhau y byddai hyn yn parhau yn y dyfodol.<br><br>2.3 Swydd y cydgadeirydd – gweler 1.1 uchod. | |
| **Cam gweithredu** | i. Cytunwyd y byddai'r rhaglen Panorama yn cael ei thrafod ar ddiwedd y cyfarfod. | **Ysgrifenyddiaeth** |
| **3.** | **Rhaglen Gwella Bywydau – y wybodaeth** | **Cyfrifoldeb** |

| | | |
|---|---|---|
| | **ddiweddaraf. Pynciau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.** | |
| | 3. Dosbarthwyd yr ail adroddiad ynglŷn â chynnydd ar Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau i'r aelodau cyn y cyfarfod. Soniodd Karen am y prif eitemau yn yr adroddiad.<br><br>Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (PNP) / lleihau arferion cyfyngol – cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Ganolfan PNP ac mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut y gallai ei gwaith gefnogi Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau. Soniodd yr aelodau am y gynhadledd Credu ym mhob Plentyn a gynhaliwyd ym mis Mawrth a'r angen i athrawon ac eraill sy'n gweithio mewn ysgolion gael hyfforddiant ar ymyriadau. Dywedodd Karen fod cyfarfod arall o'r grŵp gorchwyl a gorffen ar arferion cyfyngol wedi'i drefnu ar gyfer 15 Gorffennaf.<br><br>Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd – rhoddwyd arian ychwanegol i fyrddau iechyd er mwyn cryfhau eu timau anabledd dysgu a'u swyddi nyrsys cyswllt ysbytai. | |
| **Camau gweithredu** | i. Dywedodd Dermot McChrystal, os oes gan yr aelodau unrhyw faterion penodol y maent am eu codi ynghylch hyfforddiant ar ymyriadau i athrawon, y byddai'n barod i'w cyflwyno i'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg i'w hystyried.<br><br>Ii Bydd cynnydd o ran yr argymhellion iechyd yn eitem ar yr agenda ar gyfer cyfarfod mis Medi. | **Dermot McChrystal**<br><br>**Karen Eveleigh** |
| **4.** | **Tai** | |
| | 4.1 Roedd Dan Jones o'r Gyfarwyddiaeth Dai yn bresennol yn y cyfarfod i sôn am Raglen Gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig. Dosbarthwyd ei gyflwyniad Powerpoint yn y cyfarfod.<br><br>4.2 Dywedodd Dan fod mwy a mwy o gydnabyddiaeth i | |

| | | |
|---|---|---|
| | bwysigrwydd tai priodol i iechyd a llesiant da pobl. I gydnabod hyn, roedd y cyllid sydd ar gael dan Raglen y Gronfa Gofal Integredig wedi cynyddu i £105 miliwn dros y tair blynedd rhwng 2018-19 a 2020-21. Prif fuddiolwyr y Gronfa yw pobl ag anabledd dysgu, yr henoed, plant ag anghenion cymhleth a gofalwyr. Wrth lunio eu ceisiadau i'r Gronfa, mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gallu defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn eu hasesiadau poblogaeth.<br><br>4.3 Yna cafwyd trafodaeth ynghylch sut yr oedd yr arian yn cael ei wario, cynnydd o ran datblygu prosiectau tai i bobl ag anabledd dysgu, pa fath o dai oedd yn cael eu datblygu, a phwy oedd yn gyfrifol am fonitro'r prosiectau. | |
| **Camau gweithredu** | i. Dosbarthu dolenni i'r asesiadau poblogaeth er gwybodaeth.<br><br>ii. Gwahodd timau refeniw a chyfalaf y Gronfa i ddod i gyfarfod GCGAD ym mis Medi i roi cyflwyniad ar y Gronfa Gofal Integredig. Bryd hynny, gellir trafod y materion a godwyd gan yr aelodau. | **Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**Ysgrifenyddiaeth** |
| **5.** | **Pontio** | |
| | 5.1 Dosbarthwyd papur ar bolisïau Llywodraeth Cymru i gefnogi pontio effeithiol i wasanaethau oedolion i'r grŵp cyn y cyfarfod. Roedd y papur hwn yn amlinellu'r polisïau a'r rhaglenni gwaith presennol i gefnogi symud o wasanaethau plant a phobl ifanc i wasanaethau oedolion ym meysydd addysg, iechyd, tai a gofal cymdeithasol.<br><br>5.2 Roedd Jon Williams, Pennaeth Iechyd Plant, yn bresennol yn y cyfarfod i sôn am ddarn newydd o waith sy'n mynd rhagddo i geisio gwella'r broses bontio yn y gwasanaethau iechyd, er mwyn sicrhau bod plant yn cael y gwasanaethau iechyd iawn ar yr amser iawn. Mae Bwrdd Prosiect yn cael ei sefydlu a fydd yn cael ei gadeirio gan Dr Heather Payne, Llywodraeth Cyrmu, ac mae'r cyfarfod cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer 17 Mehefin. Dywedodd Karen a Hazel eu bod yn aelodau o'r bwrdd prosiect, er na phenderfynwyd ar aelodaeth lawn y bwrdd eto. | |

| | | |
|---|---|---|
| | 5.3 Dywedodd Jon, yn lle defnyddio'r term 'pontio' (gan ei fod bellach yn cael ei ddefnyddio'n aml wrth drafod materion rhywedd), y byddent yn defnyddio'r term 'trosglwyddo'. Ar y cyfan roedd yr aelodau'n anfodlon â'r gair 'trosglwyddo', gan nad oedd yn seiliedig ar fodel cymdeithasol a'i fod yn rhoi perchenogaeth o daith a dewisiadau bywyd person ifanc i'r gweithwyr proffesiynol yn hytrach nag i'r person ifanc ei hun. Hefyd, mae'r term 'pontio' yn derm eglur sy'n ymwneud â symud o blentyndod i fyd oedolion.<br><br>5.4 Soniodd Jane Rodgers, Julie Heal a Wendy Parry am y broses bontio yn Sir Fynwy, beth oedd yn gweithio'n dda a beth nad oedd yn gweithio'n dda, a'r heriau roeddent yn eu hwynebu. Dywedasant fod y broses bontio yn gyfnod anodd iawn i deuluoedd, gan eu bod ofn colli cymorth, yn gorfod creu perthynas newydd â gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr cymorth, a gorfod cydnabod bod eu plentyn bellach yn oedolyn a'r newidiadau cysylltiedig o ran deddfwriaeth, gallu ac arferion cyfyngol. Hefyd, mae'r meini prawf ar gyfer gofal iechyd parhaus yn wahanol iawn i blant ac oedolion. Dywedodd Julie fod model pontio newydd wedi'i ddatblygu ledled Gwent ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 a 24 oed sy'n symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion, yn seiliedig ar ganfyddiadau prosiect ar raddfa fawr a gynhaliwyd gan Sparkle.<br><br>5.5 Roedd yr aelodau o'r farn y byddai cyllidebau cyfun yn gwella'r broses bontio yn fawr. Fodd bynnag, pwysleisiwyd y byddai angen newidiadau o ran arferion, cysoni polisïau'n well, yn ogystal â chyfeiriad polisi clir ynghylch sut i sicrhau bod hyn yn digwydd. Roedd yr aelodau o'r farn hefyd y dylai taliadau uniongyrchol fod ar gael i'r rheiny sy'n derbyn gofal iechyd parhaus.<br><br>5.6 Awgrymodd Emma Curtis, wrth ystyried pontio, efallai y byddai'r aelodau am ailystyried yr argymhellion yn yr adroddiad 'Peidiwch â dal yn ôl' gan Gomisiynydd Plant Cymru. | |

| | | |
|---|---|---|
| **Camau gweithredu** | i. Anfon cylch gorchwyl y Bwrdd Prosiect at yr aelodau pan fydd ar gael.<br><br>ii. Anfon y ddolen i'r ymgyngoriadau diweddar ar ofal iechyd parhaus at yr aelodau.<br><br>iii. Rhoi gwybod i'r Bwrdd Prosiect am farn aelodau GCGAD ar y term 'trosglwyddo'.<br><br>iv. Dosbarthu model pontio newydd Gwent i'r aelodau.<br><br>v. Codi'r mater ynghylch gofal iechyd parhaus a thaliadau uniongyrchol gyda'r swyddogion. | **Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**Jon Williams**<br><br>**Julie Heal/ Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**Karen Eveleigh** |
| **6.** | **Ymchwil a gwerthuso** | |
| | 6.1 Dosbarthwyd cyflwyniad Powerpoint ar Fapio Ymchwil i Anableddau Dysgu yng Nghymru (canfyddiadau cychwynnol) i'r aelodau yn y cyfarfod. Gan fod nifer o ymatebion i ddod o hyd, gofynnwyd i'r aelodau beidio â dosbarthu'r cyflwyniad y tu allan i'r grŵp.<br><br>6.2 Cyflwynwyd Edward Oloidi, sef prif ymchwilydd y gwaith hwn, gan Ruth Northway a soniasant am y dulliau a ddefnyddiwyd yn yr ymchwil, nifer yr ymatebion a'r mathau, ac enghreifftiau o gwestiynau'r ymchwil. Yna cafwyd trafodaeth am rôl y Rhwydwaith Anabledd Dysgu ac Awtistiaeth o ran ymchwil yn y gorffennol a gofynnwyd a ellid ailsefydlu'r grŵp hwn ac a allai GCGAD sefydlu math o ystorfa.<br><br>6.3 Dywedodd Karen y byddai'r grŵp gorchwyl a gorffen ar ymchwil yn archwilio canfyddiadau'r ymchwil. Ychwanegodd Karen ei bod wedi trefnu cyfarfod â Swyddfa Cymru ar gyfer Ymchwil a Datblygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi.<br><br>6.4 Dywedodd yr Athro Upadhyaya fod gwaith yn mynd rhagddo o hyd i edrych ar achosion biolegol anableddau dysgu ac, oni bai y gellid adnabod y rhain, y byddai'n anodd rheoli a thrin anableddau dysgu. Gan ymateb, dywedodd Karen fod rhaglen waith Anabledd | |

| | | |
|---|---|---|
| | Dysgu: Gwella Bywydau wedi'i datblygu i gydnabod bod angen i wasanaethau cyhoeddus wneud mwy a gwneud hynny'n well i bobl ag anabledd dysgu a bod y rhaglen yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau o safon uchel, er mwyn galluogi pobl ag anabledd dysgu i fyw bywydau hapus a llwyddiannus mor annibynnol â phosibl. | |
| **Cam gweithredu** | Bydd yr aelodau'n rhoi gwybod i Edward am unrhyw ymchwil ar anabledd dysgu y maent yn gwybod amdani. | **Aelodau** |
| **7.** | **Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol** | |
| | 7.1 Nid oedd Sanjay Vedi yn gallu dod i'r cyfarfod fel y bwriadwyd a bydd yr eitem hon yn cael ei chynnwys ar agenda yn y dyfodol. | |
| **Cam gweithredu** | i. Cynnwys yr eitem hon ar agenda yn y dyfodol. | |
| **8** | **Unrhyw fater arall** | |

| | | |
|---|---|---|
| | 8.1 Dywedodd yr aelodau eu bod yn bryderus iawn ar ôl gweld y rhaglen ‘Panorama: Undercover Hospital Abuse Scandal’ a ddarlledwyd ar 28 Mai. Gofynasant sut y gallent fod yn sicr nad yw hyn yn digwydd yng Nghymru neu i ddinasyddion Cymru sydd wedi’u lleoli y tu allan i Gymru. Dywedodd Joe Powell ei fod yn credu mai dim ond blaen y gyllell oedd hyn a bod cam-drin pobl ag anabledd dysgu yn gyffredin, a bod angen newid o ran diwylliant i sicrhau eu bod yn cael eu trin â’r urddas a’r parch y maent yn eu haeddu.<br><br>8.2 Dywedodd Hazel Powell wrth y grŵp fod darn o waith wedi’i gomisiynu i edrych yn fanwl ar yr holl leoliadau y tu allan i Gymru, er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion yr unigolion dan sylw yn llawn, ac y byddai’r adroddiad ar gael yn yr haf. | |
| | 8.3 Yn dilyn trafodaeth, dywedodd yr aelodau yr hoffent i Grŵp Cynghori’r Gweinidog gyhoeddi datganiad ynghylch triniaeth pobl ag anabledd dysgu. | |
| **Cam gweithredu** | Bydd yr aelodau’n drafftio datganiad yng ngoleuni’r rhaglen Panorama. | **Edwin Jones ynghyd ag aelodau eraill** |
| | **Dyddiad ac amser cyfarfodydd y dyfodol:**<br><br>Dydd Mawrth 10 Medi 2019<br>Dydd Mercher 4 Rhagfyr 2019<br>Bydd pob cyfarfodydd yn dechrau am 11.00am ac yn para tan 3.00pm.<br><br>Diweddariad ynghylch yr amserau – Gan y bydd y Dirprwy Weinidog yn dod i’r cyfarfod ym mis Rhagfyr, bydd y cyfarfod hwn yn dechrau am 9.45am. | |